**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-891
Ein cyf/Our ref: KW/07336/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Hydref 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 14 Hydref, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 1 Hydref, yn holi fy marn ar y pwyntiau a godwyd gan Dr Tanya Beer yn ei thystiolaeth ychwanegol, yn benodol ei phryderon bod gofyn i athrawon roi o'u hamser i roi cyfle i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag arddull cwestiynau profion ffurfiol.

Fel y nodais yn fy ymateb gwreiddiol ym mis Mehefin, rydym yn symud oddi wrth brofion papur i asesiadau personol ar-lein. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o dair blynedd. Cyflwynwyd y rhai Rhifyddol (Gweithdrefnol) y llynedd, bydd y rhai Darllen ar gael yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a'r rhai Rhesymu Rhifyddol yn ystod 2020/21. Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/2020 felly, dim ond un prawf papur cenedlaethol fydd yna, sef y prawf Rhesymu Rhifyddol.

Mae'r asesiadau personol yn seiliedig ar sgiliau'r cwricwlwm ysgol a amlinellir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Maent wedi'u datblygu a'u cynllunio â mewnbwn arbenigwyr ac â lles dysgwyr mewn golwg; ac maent yn darparu dull mwy hyblyg, llai ffurfiol na'r profion papur o asesu sgiliau dysgwyr. Gall athrawon ddewis asesu dysgwyr yn unigol, neu mewn grwpiau bach, ar yr adeg yn ystod y flwyddyn ysgol sydd orau i'r dysgwr a/neu'r dosbarth.

Gellir gwneud yr asesiadau ar gyfrifiadur, gliniadur neu lechen, yn ôl yr hyn y mae'r dysgwyr yn ei ddefnyddio bob dydd yn y dosbarth a'r hyn y maent yn gyfarwydd ag ef. Nid oes rhaid i'r dysgwyr gwblhau'r asesiad o fewn amser penodol, ac felly gallant weithio drwy'r cwestiynau yn eu pwysau, a gall athrawon hefyd benderfynu rhoi egwyl i'r dysgwyr ar unrhyw adeg. Fel y nodais yn fy ymateb blaenorol, mae pob un o'r nodweddion hyblyg hyn yn arbennig o berthnasol i greu profiad asesu sy'n addas i ddysgwyr iau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr ymarfer y profion papur na'r asesiadau ar-lein ymlaen llaw, ac rwy'n disgwyl i bob ysgol ddilyn ein canllawiau er mwyn cynnal cwricwlwm eang a chytbwys drwy gydol y flwyddyn ysgol. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus gyda'r ffordd y mae'r cwestiynau yn gweithio, gallant ddilyn asesiad ymgyfarwyddo byr ar-lein. Darperir cyfarwyddyd ar sut dylid gweinyddu asesiadau a gwybodaeth am sut gall athrawon gefnogi dysgwyr drwy ganllawiau ysgrifenedig, fideos a gweminarau.

Ni ddylid defnyddio'r asesiadau hyn i fesur perfformiad ysgol. Maent yn rhoi adborth defnyddiol, amserol i athrawon, dysgwyr a rhieni ar sgiliau dysgwyr, a gallant fod yn rhan gyffredinol o wybodaeth sydd ar gael i bob athro fel sail i'w haddysgu a'u gwaith cynllunio.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education